***Statws** This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 8

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Hawl mynediad*

### 125 Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir

(1) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar dir ar unrhyw adeg resymol at ddiben cynnal arolwg o dir a chymryd lefelau o dir, mewn cysylltiad ag—

- (a) cais dilys am gydsyniad seilwaith,
- (b) cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith, neu
- (c) gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael yn orfodol y tir hwnnw neu fuddiant ynddo neu hawl drosto.

(2) Ni chaniateir i Weinidogion Cymru roi awdurdodiad o dan is-adran (1)(b) mewn perthynas â thir oni fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod y ceisydd arfaethedig yn ystyried prosiect o sylwedd gwirioneddol y mae gwir angen mynd ar y tir ar ei gyfer.

(3) Mewn perthynas â pherson a awdurdodir i fynd ar dir o dan is-adran (1)—

- (a) rhaid iddo, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person, a datgan diben mynd ar y tir, cyn mynd arno,
- (b) ni chaiff fynnu cael mynediad fel hawl i unrhyw dir sydd wedi ei feddiannu oni roddwyd 14 o ddiwrnodau o rybudd o'r mynediad bwriadedig i'r meddiannydd,
- (c) caiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir,
- (d) rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno, ac
- (e) rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw amodau eraill y rhoddir awdurdodiad Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig iddynt.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(4) Mae pŵer a roddir gan is-adran (1) i gynnal arolwg o dir yn cynnwys pŵer i chwilio a thurio i ganfod natur yr isbridd neu i ganfod a oes mwynau neu sylweddau eraill ynddo, yn ddarostyngedig i is-adrannau (5) a (6).

(5) Ni chaiff person o dan is-adran (1) wneud unrhyw waith a awdurdodir yn rhinwedd is-adran (4) oni chynhwyswyd hysbysiad o fwriad y person i wneud hynny yn yr hysbysiad sy'n ofynnol gan is-adran (3)(b).

(6) Mae awdurdodiad y Gweinidog priodol yn ofynnol er mwyn o dan is-adran (1) wneud gwaith a awdurdodir yn rhinwedd is-adran (4)—

(a) os yw'r tir o dan sylw yn cael ei ddal gan ymgymerwyr statudol, a

(b) os ydynt yn gwrthwynebu'r gwaith arfaethedig ar y sail y byddai cyflawni'r gwaith yn ddifrifol niweidiol i gynnal eu hymgymeriad.

(7) Yn is-adran (6)—

ystyr "y Gweinidog priodol" ("*the appropriate Minister*") yw—

(a) yn achos tir yng Nghymru a ddelir gan ymgymerwyr dŵr neu garthffosiaeth, Gweinidogion Cymru, a

(b) mewn unrhyw achos arall, yr Ysgrifennydd Gwladol;

ystyr "ymgymerwyr statudol" ("*statutory undertakers*") yw personau sydd, neu y tybir eu bod, yn ymgymerwyr statudol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 11 o DCGTh 1990.

(8) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn rhwystro'n fwriadol berson sy'n gweithredu wrth arfer pŵer o dan is-adran (1).

(9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (8) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(10) Os perir unrhyw ddifrod i dir neu eiddo arall—

(a) wrth arfer pŵer mynediad a roddir o dan is-adran (1), neu

(b) wrth gynnal arolwg y rhoddwyd unrhyw bŵer mynediad o'r fath at ei ddiben,

caiff person sy'n dioddef y difrod adennill digollediad oddi wrth y person sy'n arfer y pŵer mynediad.

(11) Rhaid i unrhyw gwestiwn ynghylch digolledIad y ceir anghydfod yn ei gylch o dan is-adran (10) gael ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo.